South Wales
Fire and Rescue Service



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

Ymladdwr Tân/Ymladdwraig Dân System Dyletswydd Rhan Amser

Pecyn Gwybodaeth

CODI YMWYBYDDIAETH - LLEIHAU PERYGL

Cynnwys

Disgrifiad Swydd	Tudalen 4
Manyleb y Person	Tudalen 5
Cyfraddau Tâl	Tudalen 6
Ydych chi wir eisiau bod yn Ymladdwr Tân?	Tudalennau 7-8
Y Broses Ddethol	Tudalennau 9
Gwybodaeth am Orsafoedd Tân a Map Lleoliadau	Tudalennau 16

Cyfle Cyfartal

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu a hyrwyddo Cyfle Cyfartal a Thegwch yn y Gwaith

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

Am ragor o wybodaeth ewch i

www.decymru-tan.gov.uk

Am wybodaeth recriwtio gyffredinol cysylltwch â'r:

Tîm Recriwtio ac Asesu
01443 232200
personnel@southwales-fire.gov.uk

Rôl yr Ymladdwr Tân/Ymladdwraig Dân

Mae rôl y Gwasanaeth Tân ac Achub wedi newid yn sylweddol dros y pum mlynedd ddiwethaf ac mae'r gwaith mae Ymladdwyr Tân yn ei wneud yn y gymuned wedi newid i adlewyrchu'r gofynion newydd sydd ar y Gwasanaeth. Nid yw'r Ymladdwr Tân 'newydd' yn unigolyn sy'n canolbwyntio'n unig ar y rôl draddodiadol o fynychu digwyddiadau brys a'r gofynion corfforol ar gyfer cyflawni hynny. Mae angen i'r Ymladdwr Tân fod yn llawer mwy hyblyg bellach. Ydy, mae'r Ymladdwr Tân 'newydd' yn dal i gyflawni'r rôl draddodiadol o ddelio gyda thanau ym mhob math o safleoedd ac amrywiaeth o Alwadau Gwasanaeth Arbennig sy'n cynnwys digwyddiadau fel pobl wedi'u dal mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, argyfyngau cemegol, llifogydd a thrychinebau naturiol eraill.

Fodd bynnag, mae'r Ymladdwr Tân 'newydd' yn gallu symud o'r rôl adweithiol hon i rôl fwy ataliol sy'n cynnwys addysgu ein cymunedau ynghylch y peryglon mae tân yn eu cyflwyno. Mae hyn yn gofyn am y gallu i gyfathrebu gyda phob grŵp sydd wrth risg yn y gymuned, yn enwedig yr henoed a phlant ysgol. Mae'n cynnwys cynnal cyflwyniadau a sgyrsiau, ymweld â chartrefi a siarad gyda phreswylwyr am sut y gallant osgoi tân a byw drwyddo os bydd tân yn digwydd. Mewn nifer o achosion, bydd hyn yn cynnwys gosod larymau mwg ar ran o bobl hyn er mwyn sicrhau eu diogelwch.

Mae angen i'r Ymladdwr Tân 'newydd' ddeall a chynrychioli'r cymunedau y mae ef neu hi yn eu gwasanaethu. Mae cymdeithas yn newid yn barhaus ac yn dod yn fwy amrywiol. Mae'n rhaid i'r tîm ymladd tân modern gynrychioli pob grŵp er mwyn cyflawni ei rôl o gyfathrebu ac ymgysylltu â phawb y mae'n eu gwasanaethu.

Disgrifiad Swydd

Rôl - Ymladdwr Tân/Ymladdwraig Dân

Lleoliad - yn ôl cyfarwyddyd y Prif Swyddog Tân

Prif Nod
Diogelu ac achub pobl ac eiddo rhag tân a pheryglon eraill yn y ffordd fwyaf cymwys ac effeithiol i'r safon uchaf bosib o ofal ac ansawdd.

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

Argyfyngau
- Ymateb yn syth ac yn ddiogel i bob galwad neu gais am gymorth brys.
- Delio gydag argyfyngau yn ôl cyfarwyddyd a gweithio'n effeithiol ac effeithlon fel aelod o dîm disgybledig.
- Lleihau gofid a dioddefaint, gan gynnwys rhoi gofal cymorth cyntaf.

Delio â Phobl
- Sefydlu a chynnal hyder aelodau'r cyhoedd.
- Cynnal cysylltiadau o fewn y gymuned.
- Bod yn sensitif i anghenion eraill, yn arbennig o ran materion yn ymwneud â thegwch ac urddas.

Diogelwch Tân
- Rhoi cyngor a chanllawiau diogelwch tân cyffredinol i bobl ar gais.
- Gweithio i helpu addysgu aelodau'r cyhoedd am risgiau a pheryglon tân.
- Cynorthwyo gyda mentrau, rhaglenni a strategaethau'r Gwasanaeth i leihau galwadau tân.

Iechyd a Diogelwch
- Adnabod materion iechyd a diogelwch yn y gwaith a delio â hwy i leihau neu ddileu cyfradd y perygl neu'r risg.
- Sicrhau diogelwch personol a diogelwch pobl eraill ar bob adeg.

Ffitrwydd Personol a Glendid
- Cynnal y lefel o ffitrwydd corfforol a meddygol sydd ei angen er mwyn cyflawni dyletswyddau Ymladdwr Tân.
- Cynnal safonau o ran golwg bersonol, hylendid ac iwnifform lân yn unol â gwasanaeth disgybledig.

Offer
- Cynnal yr holl offer ymladd tân ac argyfwng i fod yn barod, gan gynnwys glanhau, atgyweirio a phrofi yn ôl yr angen i fodloni safonau a gweithdrefnau cymeradwy.
- Gwirio'r adnoddau ymladd tân sydd wedi'u darparu at ddefnydd y Gwasanaeth Tân ac Achub, gan gynnwys hydrantau a gosodiadau sefydlog.

Daearyddiaeth Leol
- Gwybod am strydoedd, ffyrdd ac adeiladau lleol sydd o fewn ardal ymateb yr Orsaf Dân.
- Bod yn ymwybodol o'r risgiau, peryglon posib a chyflenwadau dŵr sydd ar gael o fewn ardal yr Orsaf Dân.

Gweinyddiaeth
- Cwblhau gwaith papur sylfaenol a gweinyddiaeth arferol, gan gynnwys cofnodi gwybodaeth.
- Defnyddio technoleg gwybodaeth yn ôl yr angen ac yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.
- Diweddaru cofnodion personol.

Hyfforddiant
- Cymryd rhan mewn rhaglen hyfforddiant barhaus drwy fynychu darlithoedd, ymarferion, sesiynau ymarfer a ffurfiau eraill o hyfforddiant er mwyn cynnal lefelau cymhwysedd.
- Mynychu cyrsiau hyfforddiant yn ôl cyfarwyddyd.
- Prentisiaeth Fodern.
- Lefel 3 NVQ Gweithrediadau yn y Gymuned.
- BTEC Diploma Uwch mewn Gweithrediadau Tân ac Achub Lefel 3.

Awdurdod Tân
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â lefel y cyfrifoldeb ac arbenigedd yn ôl gofyn y Prif Swyddog Tân.
- Glynu wrth bolisïau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth.

Manyleb y Person

Meini Prawf y Swydd				
	Hanfodol	**Ffynhonnell Tystiolaeth**	**Dymunol**	**Ffynhonnell Tystiolaeth**
Sgiliau	Sgiliau cyfathrebu effeithiol; Sgiliau ymarferol/â llaw; Ffordd resymegol o ddelio â phroblemau; Y gallu i ddilyn cyfarwyddiadau.	GGG AC AC Proses Gyfan	Profiad gwaith ymarferol blaenorol; Y gallu i weithio o dan bwysau.	FG/CYF AC/GGG/CYF
Gwybodaeth	Ymwybyddiaeth am elfennau'r swydd; Ymwybyddiaeth am Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru a rôl y Gwasanaeth yn y gymuned; Elfennau gwaith tîm.	CYF CYF CYF		
Profiad	Cyfraniad llwyddiannus i waith tîm; Cyswllt ag aelodau'r cyhoedd drwy waith neu ddull arall.	CYF CYF	Gwaith yn berthnasol i wasanaeth cymunedol; Gweithio mewn tîm mewn amgylchedd disgybledig.	FG/CYF CYF
Cymwysterau			Tystysgrif cymorth cyntaf gyfredol; Achub Bywyd.	FG FG
Cyfle Cyfartal	Ymrwymiad i gydraddoldeb/ tegwch yn y gwaith	CYF	Profiad o waith â thâl neu waith gwirfoddol yn y gymuned.	FG/CYF
Gofynion eraill	Yn gorfforol ffit / gallu aerobig da; Golwg a golwg lliw boddhaol heb unrhyw gymorth; Clyw boddhaol; Y gallu i weithio o uchder; Y gallu i weithio mewn man cyfyng.	AC/M AC/M FG/CYF AC/M AC AC		

Codau Tystiolaeth
FG Ffurflen Gais
AC Asesiad Corfforol
CYF Cyfweliad
GGG Profion Gweithio Gyda Gwybodaeth
M Archwiliad Meddygol

Cyfraddau tâl

Personél Gweithredol System Dyletswydd Rhan Amser

Cyfraddau Tâl Diwygiedig ar gyfer Ymladdwyr Tân Gweithredol ar y System Dyletswydd Rhan Amser o 1 Gorffennaf 2009.

Cyfraddau Tâl yn seiliedig ar Gytundeb 100%

Tâl Cadw Blynyddol	**Blynyddol £**	**Cyfradd yn ôl yr Awr £**
Ymladdwr Tân		
O dan Hyfforddiant	7,245.00*	9.66
Datblygiad	7,545.00*	10.06
Cymwys	9,660.00*	12.88
Rheolwr Criw		
Datblygiad	12,321.00*	13.69
Cymwys	12,852.00*	14.28
Rheolwr Gwylfa		
Datblygiad	13,122.00*	14.58
Rheolwr Gwylfa A	13,491.00*	14.99
Rheolwr Gwylfa B	14,364.00	15.96

* Ar gyfer cytundebau lle bo nifer yr oriau maent ar gael wedi gostwng i 75% a 50% mae'r cyflog yn cael ei ostwng pro rata.
Noder y bydd cytundebau'n cael eu dyrannu'n benodol i fodloni gofynion yr Orsaf

Cyflog 100% - cyfartaledd o 84 awr yr wythnos dros fis calendr
Cyflog 75% - cyfartaledd o 63 awr yr wythnos dros fis calendr
Cyflog 50% – cyfartaledd o 42 awr yr wythnos dros fis calendr

Oriau Gwaith

Mae Ymladdwr Tân ar y System Dyletswydd Rhan Amser yn darparu gwasanaeth hyd at 84 awr yr wythnos yn unol â gofynion rota yr orsaf. Rhaid i bersonél fod ar gael yn ystod yr oriau penodol y nodwyd eu bod ar gael yn eu cytundeb cyflogaeth. Mae rota Gorsaf yn ddigon hyblyg i ganiatáu i unigolion gael amser i ffwrdd yn ôl yr angen neu os bydd argyfwng.

Ydych chi wir eisiau bod yn Ymladdwr Tân/Ymladdwraig Dân?

Pwy sydd angen Ymladdwyr Tân?

Mar ar bawb angen cymorth Ymladdwyr Tân o dro i dro. Os oes tân yng nghartref rhywun, damwain ar y ffordd neu warws ar dân, mae gwir angen Ymladdwyr Tân ym mhob cymuned. Ydych erioed wedi meddwl dod yn Ymladdwr Tân ar y System Dyletswydd Rhan Amser? Mewn gwirionedd rydym ni eich angen chi'r un faint ag yr ydych chi ein hangen ni. Ar hyn o bryd mae prinder pobl i weithio'n rhan amser a'n helpu ni drwy weithio ar alwad. Mae'r broblem yn waeth mewn trefi bychan ac ardaloedd gwledig am fod llai o bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cymunedau bychan hyn. Mae hyn wedi peryglu ein gwasanaethau lleol. Mae'r System Dyletswydd Rhan Amser yn rhan bwysig o wasanaethau lleol.

Ymladdwyr Tân ar alwad – Nid Amaturiaid mohonynt

Mae gennym adeiladwyr, gweithwyr siop, gweinyddwyr, ffermwyr, plymwyr a rhieni sy'n aros adref. Maent yn gwneud eu swyddi arferol nes daw'r alwad ac, yn llythrennol, maent yn rhoi eu het arall arno a dod yn Ymladdwyr Tân proffesiynol. Nid tîm wrth gefn ydynt, dyma'r gwasanaeth rheng flaen, sy'n achub bywydau.

Agos Gerllaw

Rhaid i chi fod yn gweithio neu'n byw yn agos i Orsaf Dân rhan amser am fod rhaid i chi allu cyrraedd yno o fewn pum munud i dderbyn galwad. Rhaid i chi fod yn hyblyg gyda'ch gwaith am na allwn ragweld pryd y cewch eich galw. Efallai eich bod yn gweithio i gyflogwr sydd yn canolbwyntio ar y gymuned ac yn gallu eich rhyddhau o'r gwaith i fynychu digwyddiadau a hyfforddiant parhaus yn ôl yr angen. Efallai eich bod yn gweithio i'ch hun yn yr ardal leol.

Ffit i Ymladd Tanau?

Mae Ymladdwyr Tân o bob siâp a maint. Does dim gwadu y gall fod yn swydd heriol iawn. Bydd angen i chi fod yn ffit a phasio set o brofion corfforol. Bydd disgwyl i chi gynnal eich ffitrwydd drwy gydol eich amser fel Ymladdwr Tân a byddwch yn derbyn asesiadau ffitrwydd rheolaidd i wirio os ydych yn ddigon ffit i wneud y swydd o hyd. Mae'r rhan fwyaf o Ymladdwyr Tân yn gwneud ymarfer corff yn ddyddiol neu'n wythnosol i gynnal eu ffitrwydd ar gyfer y rôl. Mae'n rhaid i chi fod yn 18 mlwydd oed o leiaf gyda golwg da heb lensys cyffwrdd neu sbectol. Rhinweddau eraill sydd yr un mor bwysig yw synnwyr cyffredin, ymrwymiad a brwdfrydedd.

Mae eich angen, ond pa mor aml?

Rydym yn brin o bobl bob awr o'r dydd, ond yn enwedig yn ystod oriau'r dydd ganol yr wythnos. Ar gyfartaledd, cewch eich galw allan ddwy neu dair gwaith yr wythnos am ychydig o oriau ac am ei fod yn debygol y bydd gennym fwy o Ymladdwyr Tân ar gael nag sydd eu hangen ar gyfer pob galwad ni fydd rhaid i chi fynychu pob galwad allan. Pan na allwch roi eich amser am ryw reswm - er enghraifft, gwyliau neu derfyn amser yn y gwaith, gallwch nodi nad ydych ar gael.

Beth yw'r budd i mi?

Mae Ymladd Tân yn wahanol i swyddi eraill, gall fod yn annisgwyl, yn gyffrous ac yn werth chweil. Cewch hefyd y boddhad a'r parch a ddaw o ddarparu gwasanaeth hanfodol i'ch cymuned. Byddwch hefyd yn dysgu sgiliau newydd fel Cymorth Cyntaf, gweithdrefnau Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a Diogelwch Tân.

Ymuno â'r Tîm

Mae ymuno â'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ffordd arbennig o gwrdd â phobl newydd - y bobl yr ydych yn gweithio â hwy a'r bobl yn y gymuned y byddwch yn eu helpu. Mae perthynas agos iawn rhwng Ymladdwyr Tân am eu bod yn cydweithio fel tîm mewn amodau sy'n gallu bod yn beryglus iawn. Mae hyn yn creu cysylltiadau llawer cryfach nag y mae swyddi eraill.

Felly, os credwch fod gennych yr hyn sydd ei angen i wasanaethu a diogelu'r gymuned yr ydych yn byw ac yn gweithio ynddi, cymerwch y cam nesaf a llenwi'r ffurflen gais.

Ydych chi wir eisiau bod yn Ymladdwr Tân/Ymladdwraig Dân?

Mae'r rhestr hir o gwestiynau isod wedi'i chynllunio i'ch helpu i benderfynu a yw bod yn Ymladdwr Tân yn syniad da i chi. Ticiwch YDW neu NAC YDW ar gyfer pob un o'r cwestiynau canlynol

	YDW	NAC YDW
A oes gennych wir ddiddordeb mewn pobl?		
A ydych yn gallu cydweithio â phobl o wahanol gefndiroedd a diwylliannau?		
A ydych eisiau gweithio fel rhan o dîm agos?		
A ydych yn gallu gweithio o dan bwysau?		
A ydych yn gallu meddwl yn gyflym a datrys problemau pan ydych yn gwybod fod llawer yn dibynnu ar yr awgrymiadau fydd gennych?		
A oes gennych y sensitifrwydd i ddelio ag aelodau'r cyhoedd pan fyddant yn gofidio, wedi drysu neu'n eich rhwystro?		
A allwch dderbyn y cyfrifoldeb o gynrychioli'r Gwasanaeth pan fyddwch yn y gwaith a phan na fyddwch yn y gwaith?		
A ydych wedi ymrwymo i gynnal a datblygu eich sgiliau yn barhaus?		
A ydych yn barod i astudio ar ben eich diwrnod gwaith arferol?		
A ydych yn barod ar gyfer y gofynion o weithio mewn gwasanaeth iwnifform disgybledig lle bydd rhaid i chi gymryd gorchmynion oddi wrth bobl eraill?		
A allwch dderbyn bod angen cadw at reolau sy'n nodi beth y gallwch wisgo a beth na allwch wisgo?		
A ydych wedi ymrwymo i gynnal eich ffitrwydd corfforol?		
A yw ymarfer corff rheolaidd yn rhan o'ch bywyd dyddiol?		
A ydych yn barod i weithio yn y dydd, dros nos, gyda'r hwyr, ar benwythnosau ac ar Wyliau Cyhoeddus?		
A ydych yn berson ymarferol sy'n hoffi gweithio gyda'ch dwylo/offer?		
A ydych yn mwynhau gwneud pethau neu ddarganfod sut mae pethau yn gweithio?		
A ydych yn berson y gellir dibynnu arno i fod rhywle ar amser?		
A ydych yn berson y mae pobl eraill yn ei ystyried yn rhywun i ddibynnu arno?		
A ydych yn barod i weithio yn yr awyr agored ym mhob math o dywydd, pan mae'n wlyb ac yn oer heb wybod pryd fydd y gwaith yn dod i ben?		

Os wnaethoch ateb YDW i BOB un o'r uchod, darllenwch yr wybodaeth sydd wedi'i darparu yn ofalus ac yna cwblhau ein ffurflen gais.

Y broses ddethol

Mae'r nodiadau canlynol wedi'u cynllunio i roi syniad i chi am y broses ddethol, beth i'w ddisgwyl a bydd fydd yn ddisgwyliedig ohonoch chi. Mae'r broses ddethol yn digwydd dros gyfnod sydd wedi'i bennu ac mae wedi'i rhannu'n chwe cham.

Cam Un - Cais

Mae'r ffurflen gais yn rhan hanfodol o'r broses o lunio rhestr fer ac mae'n bwysig fod Rhan 1 o'r ffurflen yn cael ei chwblhau mor llawn ac mor gywir â phosib. Bydd Rhan 2 o'r ffurflen gais yn cael ei rhoi i chi wedi i chi gwblhau'r profion ysgrifenedig. Mae Rhan 1 o'r ffurflen gais wedi'i chynnwys a dylid ei chwblhau a'i dychwelyd at y canlynol:

Tîm Recriwtio ac Asesu (AD)
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View
Llantrisant
CF72 8LX

Darllenwch y nodiadau canllaw yn ofalus cyn cwblhau'r ffurflen gais.
Byddwn yn cydnabod derbyn pob ffurflen gais.

Rydym wedi ymrwymo yn llawn i fodloni ein dyletswyddau o dan Ran II o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. Byddwn yn rhoi addasiadau rhesymol ar waith i oresgyn unrhyw anfantais y gallech ei wynebu yn ystod y broses recriwtio, ac os yw eich cais yn llwyddiannus, eich cyflogaeth gyda ni. Mae rhai enghreifftiau o addasiadau rhesymol wedi'u rhoi isod.

Addasiadau i'r broses asesu: Os teimlwch eich bod yn gallu bodloni gofynion hanfodol Ymladdwr Tân gweithredol, sydd wedi'u manylu yn y Disgrifiad Swydd a Manyleb y Person, ond y gallai'r broses asesu eich atal rhag dangos eich gallu, byddwn yn ystyried addasu'r broses.

Noder na ellir gwneud addasiadau i'r gofynion hanfodol sydd wedi'u nodi ym Manyleb y Person. Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub Cenedlaethol wedi adolygu rôl yr Ymladdwr Tân, gan ystyried ein cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ac ymrwymiadau eraill gan gynnwys yr angen i sicrhau effeithiolrwydd gweithredol. Rydym yn ystyried bod y gofynion ym Manyleb y Person yn hanfodol ar gyfer rôl yr Ymladdwr Tân.

Mae gofynion y prawf llygaid, a'r profion eraill y mae eu manylion yn y pecyn hwn, yn gallu bod yn destun mireinio yn unol â'r broses Recriwtio Genedlaethol yn ogystal ag ystyried penderfyniadau lleol yn ymwneud ag Arfer Gorau.

Cam Dau - Y Rhestr Fer

Bydd y penderfyniad ynghylch pa ymgeiswyr fydd yn mynd ymlaen i gam nesaf y broses ddethol yn seiliedig ar:

- Yr wybodaeth yn y ffurflen gais;
- Pryd y mae'r ymgeisydd ar gael, ac os yw'n gweddu i ofynion yr Orsaf.

Mae bron pob Gorsaf Dyletswydd Rhan Amser yn Ne Cymru yn chwilio am staff yn ystod y dydd. Bydd y gallu i ddarparu gwasanaeth yn ystod y dydd yn rhoi'r siawns orau i ymgeiswyr fynd ymlaen i gam nesaf y broses.

Mae'r Awdurdod Tân yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw gais heb wahodd ymgeisydd i gymryd rhan yn y broses ddethol.

Cam Tri - Profion Gweithio Gyda Gwybodaeth

Os byddwch yn pasio cam y rhestr fer, cewch eich gwahodd i gwblhau asesiadau ysgrifenedig. Byddwch yn derbyn llyfrynnau gwybodaeth i'ch cynorthwyo i baratoi ar gyfer y profion.

Mae'r cam hwn yn cynnwys cwblhau cyfres o bedwar prawf y mae manylion amdanynt isod:

Holiadur Ymladdwyr Tân Cenedlaethol
Mae'r Holiadur Ymladdwyr Tân Cenedlaethol wedi'i gynllunio'n arbennig fel rhan o'r broses dethol Ymladdwyr Tân ac mae'n cael ei ddefnyddio fel prawf gwrthrychol, dilys a theg o rai o'r nodweddion a rhinweddau personol sydd eu hangen ar Ymladdwyr Tân i wneud eu swydd yn effeithiol.

Caiff cyfres o ddatganiadau eu rhoi i chi a gofynnir i chi nodi i ba raddau yr ydych yn cytuno â'r datganiadau. Er enghraifft, 'Mae pawb yn haeddu cael eu trin yn deg'. Drwy edrych ar eich atebion, rydym yn cael dealltwriaeth o'ch steil mewn saith maes gwahanol. Er mwyn cael eich dethol fel Ymladdwr Tân o dan Hyfforddiant bydd angen i chi arddangos bod gennych y rhinweddau personol gofynnol ym mhob un o'r meysydd hyn.

Mae'r meysydd yn cynnwys:

Ymrwymiad i Amrywiaeth ac Uniondeb - y graddau yr ydych yn deall ac yn parchu amrywiaeth ac yn mabwysiadu ffordd deg a moesol o drin pobl eraill.
Agored i Newid – y graddau yr ydych yn agored i newid ac yn ceisio cefnogi newid yn rhagweithiol.

Hyder a Chydnerthedd - y graddau yr ydych yn cynnal eich ffordd hyderus a chydnerth o ddelio â sefyllfaoedd sy'n heriol iawn.

Gweithio gydag Eraill - y graddau yr ydych yn gweithio'n effeithiol gyda phobl eraill.

Ymwybyddiaeth o'r Sefyllfa - y graddau yr ydych yn mynd ati i sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r amgylchedd er mwyn hyrwyddo gweithio yn ddiogel ac yn effeithiol.

Ymrwymiad i Ragoriaeth – y graddau yr ydych yn gydwybodol ac yn mabwysiadu dull rhagweithiol yn eich gwaith er mwyn cyflawni a chynnal safonau rhagorol.

Ymrwymiad i Ddatblygiad – y graddau yr ydych wedi ymrwymo i ddatblygu eich hun a datblygu pobl eraill.

Prawf Gweithio gyda Rhifau Cymdeithas Genedlaethol yr Ymladdwyr Tân
Mae'r prawf hwn yn asesu eich gallu i ddeall a gweithio gyda gwybodaeth rifiadol o'r math yr ydych yn debygol o'i brofi fel Ymladdwr Tân. Caiff cyfres o sefyllfaoedd eu rhoi i chi gan ddefnyddio gwybodaeth o graffiau, tablau, deialau a medryddion a gofynnir i chi ateb cwestiynau'n ymwneud â phob un o'r rhain. Mae angen i Ymladdwyr Tân allu adio, tynnu, lluosi a rhannu yn ogystal ag amcangyfrif data rhifiadol.

Prawf Deall Gwybodaeth Cymdeithas Genedlaethol yr Ymladdwyr Tân
Mae'r prawf hwn yn asesu eich gallu i ddarllen a deall gwybodaeth ysgrifenedig o'r math y byddwch yn debygol o'i brofi fel Ymladdwr Tân. Cewch gyfres o sefyllfaoedd a gwybodaeth mewn nifer o fformatau (gan gynnwys gwybodaeth diogelwch tân, memos, cylchlythyron a detholiadau o lawlyfrau cyrsiau hyfforddiant). Bydd gofyn i chi ateb sawl cwestiwn am y rhain.

Prawf Ymwybyddiaeth o'r Sefyllfa a Datrys Problemau Cymdeithas Genedlaethol yr Ymladdwyr Tân
Mae'r prawf hwn yn edrych ar eich gallu i sicrhau eich diogelwch eich hun a diogelwch pobl eraill yn ogystal â'ch gallu i ddefnyddio gwybodaeth i ddatrys problemau. Cewch gyfres o sefyllfaoedd fydd yn debyg i'r rhai yr ydych yn debygol o ddod ar eu traws mewn rôl Ymladdwr Tân. Bydd gofyn i chi ddewis yr ateb sy'n disgrifio orau'r hyn y byddech yn ei wneud ym mhob sefyllfa - bydd pedwar ateb i chi ddewis ohonynt.

Prawf Llygaid
Ar yr un diwrnod y byddwch yn sefyll y profion Gweithio Gyda Gwybodaeth, byddwch yn derbyn prawf llygaid cychwynnol. Mae'r gofynion gweledol ar gyfer Ymladdwyr Tân yn uchel iawn.

Rhaid i Ymladdwyr Tân Gweithredol fod â lefel addas o ganfyddiad lliw. Mae unigolion sydd â golwg lliw arferol neu olwg lliw gwyrdd ychydig yn anarferol yn addas ar gyfer cael eu penodi i'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Dyma'r prif ofynion:

- Craffter golwg heb ei gywiro (heb unrhyw gymorth o 6.9 llygad dde, 6.9 llygad chwith, neu well na hynny;
- Golwg lliw arferol (Prawf Ishihara - mwyafswm o 2 gamgymeriad wedi'i ganiatáu).

Os ydych yn ansicr a ydych yn bodloni'r gofynion hyn, fe'ch cynghorir i ofyn am gyngor oddi wrth optegydd cymwys. Yn ychwanegol i'r profion cychwynnol, mae profion golwg manwl yn cael eu cynnal yn ystod cam meddygol y broses. Noder, nid yw canlyniad boddhaol adeg y prawf cychwynnol yn gwarantu llwyddo'r profion adeg y cam meddygol.

Os byddwch yn methu'r prawf Ishihara, efallai bydd modd i chi ddangos bod gennych olwg lliw boddhaol mewn prawf arall. Mae dau gam i'r weithred hon. Yn gyntaf, rhaid i chi basio prawf D15 Farnsworth. Os bydd ymgeisydd yn methu'r prawf D15 Farnsworth ni fydd ganddo olwg lliw boddhaol i fod yn Ymladdwr Tân.

Bydd ymgeiswyr sy'n pasio prawf D15 Farnsworth yna'n gorfod pasio prawf anomalosgop Nagel.

Mae prawf D15 Farnsworth ar gael gan
Optegwyr Prifysgol Caerdydd,
Heol Maendy
Cathays

Rhif Ffôn: 02920 874357.

Mae'r prawf yn costio tua £25.00.

Rhan 2 y Ffurflen Gais

Byddwch yn derbyn Rhan 2 y ffurflen gais wedi i chi gwblhau'r profion ysgrifenedig. Byddwch yn derbyn gwybodaeth ar sut i gwblhau'r ffurflen. Bydd yr wybodaeth hon yn esbonio sut caiff Rhinweddau a Phriodoleddau Personol y Gwasanaeth Tân ac Achub eu defnyddio i benderfynu ar lwyddiant yn y cam hwn o'r broses a hefyd yn y cyfweliad. Dylid cwblhau Rhan 2 y ffurflen gais a'i dychwelyd i'r Tîm Recriwtio ac asesu cyn y Profion Asesiad Corfforol ac Ymarferol.

Cam Pedwar - asesiad corfforol ac ymarferol

Os byddwch yn pasio'r profion ysgrifenedig, cewch eich gwahodd i'r diwrnod y cynhelir yr asesiadau corfforol ac ymarferol. Os nad ydych eisoes wedi dychwelyd Rhan 2 y ffurflen gais, rhaid i chi ddod â hi gyda chi ar y dydd.

Mae'r profion hyn wedi'u cynllunio i asesu lefel eich ffitrwydd corfforol a'ch gallu i ddod yn Ymladdwr Tân. Os byddwch yn llwyddiannus, cewch eich gwahodd i gael cyfweliad.

Mae'r Asesiad Corfforol ac Ymarferol yn cynnwys:

Taldra, Pwysau a Mynegai Más y Corff (BMI)

At ddiben y cofnodion, bydd eich taldra, pwysau a BMI yn cael eu mesur. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei phasio i'r ymarferydd sy'n gyfrifol am yr asesiad Meddygol.

Prawf Bleep

Bydd angen i chi gwblhau'r Prawf (Bleep) Ffitrwydd Aerobig yn Berthnasol i'r Swydd i isafswm lefel o 8.6.

Noder: NI FYDD canlyniadau y prawf hwn yn effeithio ar eich llwyddiant gyda'r broses hon. Fodd bynnag, mae yn arwydd da o'ch lefel cyfredol o ffitrwydd ac fe ellir rhoi cyngor i chi ar sut i'ch helpu i wella eich lefelau ffitrwydd.

Prawf Man Cyfyng

Bydd angen i chi gyfuno hyder, ystwythder a chryder wrth gropian drwy'r llwybr er mwyn pasio'r prawf yn llwyddiannus. Dim ond un ffordd sydd drwy'r llwybr, ymlaen, i'r dde, i'r chwith, i fyny neu i lawr a does dim drysau i'w hagor.

Byddwch yn cychwyn y prawf yn gwisgo mwgwd wyneb sy'n eich caniatáu i weld yn eglur. Fodd bynnag, wedi i chi gwblhau'r llwybr, bydd eich masg yn cael ei orchuddio a bydd angen i chi ddychwelyd ar hyd y llwybr.

Dylech gwblhau'r profion hyn heb beryglu eich diogelwch a'ch lles.

Prawf Gosod Offer

Bydd angen i chi osod ac yna datgymalu darn o offer (offeryn hydrolig sy'n cael ei ddefnyddio gan y Gwasanaeth Tân ac Achub).

Cyn i chi gychwyn y prawf bydd hyfforddwr yn dangos y ffordd gywir o osod yr offer. Bydd gennych hefyd ddarlun yn dangos y ffordd gywir o'i osod.

Prawf Cario Offer

Bydd angen i chi gyfuno dygnwch, cryfder rhan uchaf a rhan isaf y corff a chydlyniad. Byddwch yn cario offer ar hyd llwybr o 25 medr.

Dringo Ysgol
Bydd angen i chi ddangos hyder a defnyddio'r dechneg gywir i ddringo'r ysgol.

Cewch weld sut i ddringo'r ysgol a sut i ddefnyddio clo coes. Yna, byddwch yn gallu ymarfer y clo coes.

Byddwch yn dringo'r ysgol i uchder penodol. Yna, byddwch yn defnyddio'r clo coes i ddiogelu eich hun i'r ysgol, yna tynnu eich dwylo oddi ar yr ysgol ac yn pwyso yn ôl, gan edrych dros eich ysgwydd i ddweud beth sy'n cael ei ddal gan yr hyfforddwr ar y llawr.

Pan fyddwch wedi nodi'r peth sy'n cael ei ddal, byddwch yn rhoi eich dwylo yn ôl ar yr ysgol ac yn rhyddhau'r clo coes.

Yna byddwch yn dringo i lawr yr ysgol.

Prawf Symud Person sydd wedi'i Anafu
Bydd angen i chi gyfuno cryfder rhan uchaf a rhan isaf eich corff a'ch cydlyniad. Bydd angen i chi lusgo dymi ffug dros bellter o 30 medr.

Prawf Efelychu Codi Ysgol
Bydd angen i chi gyfuno cryfder rhan uchaf a rhan isaf eich corff a'ch cydlyniad er mwyn codi'r ysgol i'r uchder angenrheidiol a'i gosod yn ôl i lawr yn ofalus ac o dan reolaeth. Y pwysau fydd y cael ei ychwanegu i'r bar codi fydd 15 kilogram.

Mae rhaglen hyfforddiant corfforol ar gael ar ein gwefan sydd wedi'i chynllunio i gefnogi ein hymgeiswyr.
www.decymru-tan.gov.uk

Os nad oes gennych fynediad at y rhyngrwyd, cysylltwch â'r Tîm Recriwtio ac Asesu ar 01443 232200 a gofyn am gopi o'r Rhaglen Ffitrwydd Paratoadol.

Cam Pump - Y cyfweliad

Os byddwch yn llwyddo'r asesiad corfforol a bod Rhan 2 y ffurflen gais wedi'i chwblhau i safon foddhaol, byddwch yn cael gwahoddiad i ddod i gyfweliad. Yn ystod y cyfweliad byddwn yn gofyn cyfres o gwestiynau i chi sydd wedi'u cynllunio i fesur eich nodweddion a rhinweddau personol mewn pedwar maes:

Ymrwymiad i Amrywiaeth ac Uniondeb - asesu eich agwedd tuag at faterion yn ymwneud ag amrywiaeth a sut yr ydych yn trin eraill mewn modd teg a moesegol.

Gweithio gydag Eraill - y graddau yr ydych yn gweithio'n effeithiol gyda phobl eraill, o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub ac yn y gymuned.

Ymrwymiad i Ddatblygiad – y graddau yr ydych wedi ymrwymo i ddatblygu eich hun a datblygu pobl eraill.

Ymrwymiad i Ragoriaeth – mesur y graddau yr ydych yn gydwybodol ac yn mabwysiadu dull rhagweithiol yn eich gwaith er mwyn cyflawni a chynnal safonau rhagorol.

Byddwch hefyd yn derbyn cwestiynau am eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r System Dyletswydd Rhan Amser o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Byddwch hefyd yn cael eich asesu drwy gydol y cyfweliad ar ba mor effeithiol yr ydych yn cyfathrebu.

Cam Chwech - Prawf Meddygol

Mae Ymladdwyr Tân yn gallu wynebu gofynion corfforol a seicolegol eithafol mewn amgylchedd anodd a pheryglus. Er mwyn cydymffurfio â'r darpariaethau statudol perthnasol, mae sgrinio meddygol Ymladdwyr Tân yn drwyadl. O dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, rhaid i'r Gwasanaeth tân ac Achub leihau risg mor bell ag sy'n rhesymol ymarferol. Mae hyn yn golygu y byddai cyflwr meddygol a allai yn rhesymol arwain at risg gweithredol y gellir ei ragweld yn annerbyniol.

Mae addasrwydd meddygol yn cael ei bennu gan asesiad unigol er mwyn osgoi gwahaniaethu diangen. Am resymau ymarferol, ni ellir cynnal yr asesiad tan gamau olaf y broses recriwtio. Gall natur ac effaith cyflyrau meddygol fod yn amrywiol. Nid yw felly yn bosib cadarnhau y bydd cyflwr meddygol yn annerbyniol cyn yr asesiad meddygol unigol. Fodd bynnag, os oes gennych gyflwr meddygol neu hanes o gyflwr meddygol a allai achosi problemau i chi, dylai'r canllawiau cyffredinol canlynol eich cynorthwyo i ystyried eich addasrwydd meddygol cyn gwneud cais.

Mae cyflwr meddygol neu gyfyngiad ymarferol sydd, er gwaethaf addasiadau rhesymol (gweler tudalen), yn cynyddu'n sylweddol y risg gweithredol ar gyfer unrhyw un o'r canlynol yn annerbyniol:

- Cwympo yn sydyn neu eich analluogi yn sydyn;
- Amharu ar synnwyr cyffredin;
- Newid ymwybyddiaeth;
- Anaf/salwch corfforol neu seicolegol sylweddol;
- Unrhyw effaith arall a allai achosi risg iechyd a diogelwch sylweddol i'ch hun ac i eraill.

Bydd yr asesiad unigol yn cynnwys ystyried unrhyw farn feddygol neu adroddiad meddygol yr ydych yn dymuno ei gyflwyno. Fodd bynnag, bydd y penderfyniad ynghylch pa mor sylweddol yw unrhyw risgiau sy'n cael eu canfod yn fater i'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Bydd yr Asesiad Meddygol yn cynnwys y canlynol:

- Holiadur Iechyd a Ffordd o Fyw;
- Prawf Craffter Gweledol;
- Prawf Awdiometreg (clyw);
- Sgrinio pwysau gwaed;
- Prawf taldra a phwysau;
- Prawf wrin;
- Prawf ysgyfaint.

Penodiad

Os byddwch yn llwyddo pob cam o'r broses recriwtio, byddwch yn cael cynnig cyflogaeth pan fydd swydd wag yn codi. Mae'r cynnig yn amodol ar anghenion a gofynion sefydliadol. Os na fydd gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru swydd wag yn yr orsaf y gwnaethoch gais amdani, bydd eich manylion yn cael eu nodi ar restr wrth gefn a bydd yn eich ystyried pan fydd swydd wag yn codi. Mae'r rhestr wrth gefn ond yn ddilys am 24 mis wedi dyddiad pasio'r asesiad meddygol.

Cwrs Ymdrwytho

Wedi i chi dderbyn cynnig penodiad, cewch eich gwahodd i Gwrs Ymdrwytho deuddydd yng Nghanolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd.

Cewch eich mesur ar gyfer eich gwisg ymladd tân yn ystod y Cwrs Ymdrwytho.

Dysgu Cyn y Cwrs

Wedi i chi gwblhau'r Cwrs Cyflwyniad, bydd angen i chi dreulio chwe wythnos yn dysgu cyn y cwrs. Mae hyn yn cynnwys dwy awr yr wythnos yn yr orsaf y byddwch yn gweithio ohoni.

Hyfforddiant System Dyletswydd Rhan Amser

Wedi cwblhau'r dysgu cyn y cwrs, bydd angen i chi ddilyn cwrs hyfforddiant pythefnos, dibreswyl (dydd Llun i ddydd Gwener) yng Nghanolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd. Yn ystod y rhaglen hyfforddiant, byddwch yn dysgu sgiliau sylfaenol Ymladd Tân gan gynnwys defnyddio pibell ddŵr, ysgolion, ymladd tân a rhyddhau pobl sydd wedi'u hanafu.

Bydd y cwrs System Dyletswydd Rhan Amser yn gofyn i chi ddysgu llawer iawn o ddeunydd damcaniaethol ac ymarferol. Bydd hefyd disgwyl i chi astudio ac adolygu yn eich amser eich hun yn ogystal ag yn yr ystafell ddosbarth. Bydd eich cynnydd yn cael ei fonitro'n barhaus a bydd angen pasio arholiadau/profion ysgrifenedig, llafar ac ymarferol. Bydd angen dangos cymhwysedd ar lefel benodol mewn nifer o feysydd er mwyn pasio'r cwrs.

Mae'r cyfnod hyfforddiant yn llafurus iawn ac yn gofyn am stamina ar eich rhan chi er mwyn eich galluogi i ymdopi'n llwyddiannus gyda'r amryw agweddau llafurus a chorfforol o'r hyfforddiant cychwynnol. Fe'ch cynghorir i'ch paratoi eich hun i lefel resymol o ffitrwydd cyn y cwrs a hefyd i gynnal y ffitrwydd hwn yn ystod y cwrs ei hun.

Mae hyfforddiant yn broses barhaus a bydd yn parhau drwy gydol eich gyrfa i sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r problemau a'r peryglon diweddaraf sy'n newid yn barhaus y mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymdopi â hwy. Byddwch, er enghraifft, yn derbyn darlithiau ac arddangosiadau ymarferol o weithdrefnau diogelwch ac yn defnyddio offer arbenigol sydd newydd ei ddatblygu. Mae nifer o sgiliau arbenigol sydd eu hangen ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub ac fe ddarperir hyfforddiant trwyadl bob amser.

Mae gofyn i bawb sydd dan hyfforddiant gwblhau Prentisiaeth Fodern sy'n cynnwys NVQ Lefel 3 'Gweithrediadau yn y Gymuned', Lefel 3 BTEC 'Diploma Uwch mewn Gweithrediadau Tân ac Achub' a Sgiliau Allweddol Lefel 2.

Gorsafoedd Tân

Mae gan y Gwasanaeth hanner can Gorsaf yn cynnwys rhai Amser Llawn, Amser Llawn/Rhan Amser, Criw Dydd a Rhan Amser.

Gorsafoedd System Dyletswydd Llawn Amser – mae gan y gorsafoedd hyn griw o Ymladdwyr Tân llawn amser 24 awr o'r dydd. Mae pedair gwylfa gyda lleiafswm o 7 Ymladdwr Tân ar bob gwylfa.

Gorsafoedd Criw Dydd –mae gan y gorsafoedd hyn griw o Ymladdwyr Tân llawn amser. Maent wedi'u lleoli yn yr orsaf yn y dydd ac yn ymateb i alwadau tân yn y nos o'u cartrefi pan fyddant ar ddyletswydd wrth gefn. Mae dwy wylfa ar bob gorsaf yn cynnwys lleiafswm o 7 Ymladdwr Tân. Mae Ymladdwyr Tân ar Orsafoedd Criw Dydd yn cario 'larwm' bob amser pan fyddant ar ddyletswydd er mwyn ymateb i'r orsaf yn ôl yr angen.

Gorsafoedd System Dyletswydd Rhan Amser – mae gan y gorsafoedd hyn griw pan fydd digwyddiad neu yn ystod y sesiwn ymarfer dwy awr wythnosol yn unig. Mae gan bob gorsaf ar y System Dyletswydd Rhan Amser o leiaf 14 Ymladdwr Tân. Mae Ymladdwyr Tân ar y System Dyletswydd Rhan Amser ar gael i ymateb i alwadau tân o'u cartrefi yn eu hamser hamdden, neu mewn rhai achosion, o'u man gwaith os bydd eu cyflogwr yn caniatáu. Mae pob Ymladdwyr Tân yn cario 'larwm' bob amser pan fyddant ar ddyletswydd er mwyn ymateb i'r orsaf yn ôl yr angen.

Rhaid i Ymladdwyr Tân Criw Dydd a System Dyletswydd Rhan Amser fyw o fewn pum munud i'w gorsaf enwebedig.